



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Diwygiadau arfaethedig i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003

Dyddiad cyhoeddi: 20 Hydref 2017
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 12 Ionawr 2018

Trosolwg	Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r diwygiadau technegol y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu gwneud i Reoliadau 2003.
Sut i ymateb	<p>Gellir anfon atebion drwy'r e-bost neu gellir eu hanfon yn syth i:</p> <p>Polisi Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: LGFPmail@gov.wales</p>
Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig	Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.
Manylion Cysylltu	<p>Polisi Cyllid Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: LGFPmail@gov.wales</p>
Diogelu Data	<p>Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.</p> <p>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn</p>

briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cefndir

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") a wnaed o dan Ran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ("Deddf 2003") yn darparu'r drefn reoleiddiol ar gyfer cyllid cyfalaf ac arferion cyfrifyddu llywodraeth leol i'w dilyn gan awdurdodau lleol Cymru. Mae Rheoliadau 2003 yn cynnwys darpariaethau manwl o ran rheolaethau cyllid cyfalaf a chyfrifyddu, gan gynnwys y rheolau o ran defnyddio derbyniadau cyfalaf a'r hyn y dylid ymdrin ag ef fel gwariant cyfalaf. Maent hefyd yn newid y modd y mae rhai o'r safonau cyfrifyddu ariannol yn cael eu rhoi ar waith i atal effeithiau andwyol ar adnoddau refeniw'r awdurdodau.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu'r diwygiadau y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu eu gwneud i Rheoliadau 2003. Byddai'r rhain yn cyflwyno newidiadau i drefn cyllid cyfalaf a chyfrifyddu llywodraeth leol Cymru. Bydd y diwygiadau arfaethedig yn llacio'r cyfyngiadau presennol o ran trafodiadau cyfalaf benthyc, trafodiadau cyfalaf cyfrannau penodol a bondiau, gan sicrhau bod awdurdodau lleol Cymru'n gweithredu ar yr un sail â'u cymheiriaid yn Lloegr.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn i gasglu barn ar y newidiadau arfaethedig o ran cyllid cyfalaf ac arferion cyfrifyddu. Ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori, darperir copi o'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2018 ("y Rheoliadau drafft") a fydd yn diwygio Rheoliadau 2003 o 31 Mawrth 2018.

Cynhelir yr ymgynghoriad am 12 wythnos rhwng 20 Hydref a 12 Ionawr 2018.

Pa newidiadau a gynigir?

Trafodiadau gwarannu

Ystyr "gwarannu" yn y cyd-destun hwn yw gwaredu buddiant yn yr hawl i refeniw yn y dyfodol. Er enghraifft, gallai landlord sy'n cael arian rhent o'i dai drosglwyddo'r hawl i'r incwm hwnnw i fanc am (e.e.) 20 mlynedd yn gyfnewid am gyfandaliad uniongyrchol. O safbwynt cyfrifyddu technegol, mae'n ymddangos bod y trafodiad gwarannu yn gyfystyr â *gwerthu* ased (y ffrwd refeniw yn y dyfodol) ac mai'r enillion a geir o'i gwerthu, ac nid benthyciad, yw'r cyfandaliad. Serch hynny, mae i'r strategaeth hon yr un canlyniad â benthyciad, ac fe ellir ei hystyried fel dewis arall yn lle benthyciad.

Mater i bob awdurdod fydd ystyried a yw unrhyw drafodiad gwarannu o'r fath yn gyfreithlon, gan ystyried union natur y contract a'i bwerau statudol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cyflwyno rheoliad newydd i osod gwarannu ar yr un sail â benthyciadau a mathau eraill o gredyd, os caiff ei ddefnyddio'n gyfreithlon gan awdurdodau lleol Cymru.

Mae'r Rheoliadau drafft a ddarparwyd ochr yn ochr â'r ddogfen ymgynghori hon yn mewnosod rheoliad 2A newydd yn Rheoliadau 2003. Mae Rheoliad 2A yn darparu

bod rhaid ymdrin â thrafodiad gwarannu fel trefniant credyd at ddibenion Deddf 2003. Maent hefyd yn diwygio Rheoliad 5 o Reoliadau 2003 i ddarparu bod rhaid ymdrin ag ymrwymiad i drefniant credyd, yn achos trafodiad gwarannu, yn nhermau benthyg swm sy'n hafal i werth y taliad y bydd yr awdurdod yn ei gael o ganlyniad i'r trafodiad gwarannu hwnnw.

Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn mewnosod rheoliad 8A newydd yn Rheoliadau 2003 i sicrhau bod rhaid ymdrin â gwerth unrhyw daliad y bydd awdurdod lleol yn ei gael o ganlyniad i drafodiad gwarannu fel derbyniad cyfalaf.

Gwariant i'w drin fel gwariant cyfalaf

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig llacio'r cyfyngiadau o ran pob trafodiad cyfalaf benthyg. Mae hyn yn golygu na fydd awdurdodau'n mynd i wariant cyfalaf os byddant yn benthyca i gwmnïau unigol drwy gyfrwng bondiau corfforaethol (neu unrhyw offeryn neu drefniant arall o'r fath). O lacio'r cyfyngiadau hyn, ni fwriedir iddo awgrymu bod Llywodraeth Cymru'n gwneud argymhelliad o ran arferion buddsoddi. Mae penderfyniadau buddsoddi'n dal i fod yn fater i'r awdurdodau unigol, ac mae angen iddynt roi sylw i ganllawiau buddsoddi Llywodraeth Cymru ac i God CIPFA ar Reoli'r Trysorlys.

Oherwydd na fydd caffael bondiau'n cael ei drin fel gwariant cyfalaf mwyach, mae'r Rheoliadau drafft yn diwygio rheoliad 6 o Reoliadau 2003 i sicrhau na fydd gwerthu bondiau, neu adbrynu bondiau pan fyddant yn aeddfedu, yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol i unrhyw symiau a dderbynnir gan awdurdod lleol (pan fydd bond yn aeddfedu neu'n cael ei werthu) os cafodd y bond ei gaffael cyn 1 Ebrill 2018 ac os cafodd y gwariant i gaffael y bond ei drin fel gwariant cyfalaf.

Bydd prynu cyfalaf cyfrannau'n parhau i gael ei drin fel gwariant cyfalaf, ond mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu diwygio rheoliad 20 o Reoliadau 2003 i ddarparu esemptiadau ar gyfer cyfranddaliadau mewn cynlluniau buddsoddi torfol. Bydd hyn yn cyfyngu ar y risgiau sydd ynghlwm wrth fuddsoddiadau cyfalaf cyfrannau drwy eu lledaenu ar draws nifer o gwmnïau. Bydd hyn yn sicrhau bod awdurdodau lleol Cymru'n gweithredu ar yr un sail â'u cymheiriaid yn Lloegr a'i bod yn glir bod ganddynt hawl i fuddsoddi mewn cronfeydd marchnadoedd arian, ymddiriedolaethau buddsoddi eiddo tirol a chynlluniau buddsoddi awdurdodau lleol a gymeradwywyd gan y trysorlys heb fynd i wariant cyfalaf.

Mae Rheoliadau 2003 yn caniatáu i wariant awdurdod lleol ar waith i unrhyw dir neu adeilad nad oes ganddo fuddiant ynddo gael ei drin fel gwariant cyfalaf. Mae'r newidiadau sydd ynghlwm wrth ddiwygio llywodraeth leol a'r cyfleoedd cynyddol i wneud gwaith is-ranbarthol drwy'r fargen ddinesig wedi tanlinellu'r ffaith y gall fod angen estyn y trefniant hwn i gynnwys asedau ac eithrio tir ac adeiladau. Mae'r Rheoliadau drafft yn mewnosod rheoliad 20(1) (h) newydd yn Rheoliadau 2003 i ddarparu bod rhaid ymdrin â gwariant yr eir iddo i gaffael, i gynhyrchu neu i adeiladu asedau i'w defnyddio gan berson ac eithrio'r awdurdod lleol, neu'u gwerthu i berson o'r fath, fel gwariant cyfalaf, a hynny pe bai'r gwariant hwnnw wedi bod yn wariant

cyfalaf pe bai'r asedau wedi'u caffael, eu cynhyrchu neu'u hadeiladu i'w defnyddio gan yr awdurdod lleol.

Defnyddio derbyniadau cyfalaf

Mae Rheoliadau 2003 yn caniatáu i'r awdurdodau lleol ddefnyddio hyd at 4% o dderbyniad cyfalaf nad yw'n gysylltiedig â thair i gyllido costau gwaredu. Ni ellir ond gwneud hyn os yw'r costau gwaredu a'r derbyniadau cyfalaf yn digwydd yn yr un flwyddyn ariannol. Felly, mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu diwygio rheoliad 18 o Reoliadau 2003 i osgoi unrhyw oblygiadau ymarferol posibl os nad yw'r costau gwaredu a'r derbyniadau cyfalaf yn digwydd yn yr un flwyddyn ariannol.

Ôl-daliadau yn sgil cyflog anghyfartal

Yn unol ag arferion cyfrifyddu, mae'n ofynnol gwneud darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau sy'n debygol o godi yn y dyfodol yn y flwyddyn ariannol pan gaiff y rhwymedigaeth ei phennu, yn hytrach na'r flwyddyn pan fydd y taliad yn ddyledus. Yn achos cyflog cyfartal ac er mwyn diogelu'r awdurdodau, mewnosodwyd Rheoliad 24A yn Rheoliadau 2003 yn 2010. Roedd yn rhoi cyfle i'r awdurdodau gael eu gwynt atynt drwy ganiatáu iddynt beidio â chodi swm yr ôl-daliadau ar eu cyfrifon refeniw hyd nes bod y taliadau'n ddyledus. Yn wreiddiol, roedd disgwyl i'r rheoliad ddod i ben yn 2011, ond cafodd ei estyn ddwywaith hyd at 1 Ebrill 2013 ac 1 Ebrill 2018.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ei estyn tu hwnt i 1 Ebrill 2018, ac iddo barhau i fod yn effeithiol tan 1 Ebrill 2020, gan ddiogelu'r awdurdodau am ddwy flynedd arall. Bydd hyn yn golygu na fydd rhaid codi swm ar y cyfrif refeniw am y rhwymedigaeth ôl-daliadau a bennir yn ystod y cyfnod hwnnw hyd nes bod y taliad yn ddyledus.

Arferion priodol

Yn sgil adolygiad i wella diwyg datganiadau ariannol yr awdurdodau lleol, gwnaed newidiadau i God Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (y Cod). O ganlyniad i'r newidiadau hyn, ni fydd bellach yn ofynnol i'r awdurdodau lleol ddyrannu a dosrannu gorbenion i wasanaethau fel y nodir yn y Cod Ymarfer ar Adroddiadau Gwasanaethau (SeRCOP) pan fyddant yn paratoi eu cyfrifon statudol. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu dileu'r cyfeiriad sy'n nodi 'arferion priodol' mewn perthynas â pharatoi'r cyfrifon.

Yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, diffinnir cydbwyllgorau ag incwm gros neu wariant gros (pa un bynnag sydd uchaf) o hyd at £2,500,000 fel 'cyrff perthnasol llai' ac mae rheolau penodol yn berthnasol iddynt o ran eu cyfrifon a'u harchwiliad. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig diwygio rheoliad 25 o Reoliadau 2003 er mwyn i'r diffiniad o gydbwyllgor bach at ddibenion cymhwyso arferion priodol gydweddu â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, a hynny drwy gynyddu'r trothwy o £1,000,000 i £2,500,000.

Mân newidiadau a newidiadau technegol

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu diweddarau'r derminoleg a dileu termau sydd wedi dyddio o ran arferion cyfrifyddu cyfredol llywodraeth leol. Er enghraifft, yn lle'r term ased sefydlog, mae'r Rheoliadau drafft yn defnyddio'r term ased anghyfredol, nad yw'n ased ariannol.

Datblygiadau sydd yn yr arfaeth - IFRS 16

O dan IFRS 16, o fis Ionawr 2019, ceir un model cyfrifyddu ar gyfer lesddeiliaid a bydd angen cydnabod asedau a rhwymedigaethau pob prydles, oni bai fod y brydles yn para 12 mis neu lai neu fod gwerth yr ased yn isel.

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi wedi ymgymryd â gwaith cychwynnol i asesu effaith IFRS 16 ar amcanestyniadau a chyllidebau. Mae'r papur a drafodwyd yng nghyfarfod Bwrdd Cynghori'r Llywodraeth ar Adrodd Ariannol ym mis Mehefin 2016 ar gael drwy'r ddolen a ganlyn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/542846/FRAB_127_04_IFRS_16.pdf

Mae CIPFA/LASAAC hefyd wedi sefydlu is-grŵp i asesu effaith mabwysiadu'r safon ar awdurdodau lleol. Bydd yn ystyried y materion cyfrifyddu technegol sy'n gysylltiedig â rhoi'r safon ar waith, yn ogystal â'r materion ymarferol y bydd yr awdurdodau lleol yn eu hwynebu.

Cwestiynau ymgynghori

Mae Llywodraeth Cymru am glywed eich barn ar y Rheoliadau drafft a'r modd y byddant yn cael eu rhoi ar waith. Yn benodol:

- 1. A ydych yn cytuno â'r diwygiadau arfaethedig i Reoliadau 2003?**
- 2. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ynghylch y Rheoliadau drafft?**
- 3. A ydych wedi ystyried y graddau y bydd cyflwyno IFRS 16 yn effeithio ar awdurdodau lleol Cymru?**

Camau nesaf

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, byddwn yn dadansoddi'r holl ymatebion ac yn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Rheoliadau drafft. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan Llywodraeth Cymru. Bwriedir gosod y Rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn iddynt ddod i rym ar 31 Mawrth 2018 neu cyn hynny.